Ned Thomas
Cadeirydd Dyddiol Cyf.

Mawrth 4ydd, 2008.

Annwyl Ned,

Diolch am eich llythyr. Rwy'n nodi eich cwyn a'ch cais am ymddiheuriad.

Roedd y rhaglen a ddarlledwyd ar Chwefror 5ed yn ymwneud â'r ymgais i sefydlu papur newydd dyddiol Cymraeg, ac yn benodol â bwriad Dyddiol Cyf i drio lawnsio Y Byd.

Wrth baratoi'r rhaglen aethom ati i siarad â nifer o unigolion oedd â phrofiad yn y maes. Roedd hynny'n cynnwys pobol oedd (neu oedd wedi bod) yn olygyddion a'n newyddiadurwyr papurau, cylchgronau a rhaglenni teledu, gwleidyddion, ac wrth gwrs unigolion allweddol fel chithau ac Aled Price.

Roedd ein hymchwil ni'n dangos bod yna ofid am rai agweddau o gynllun busnes Dyddiol Cyf a rhai agweddau golygyddol. Yn y rhaglen lleisiwyd y pwyntiau hynny gan Marc Jones, Aled Eirug a Dylan Iorwerth.

Roedd Marc Jones yn siarad fel cyn-newyddiadurwr papurau newydd dyddiol, ac yn ein tyb ni yn gwbwl gymwys i wneud hynny. Roedd Aled Eirug yno fel cyn bennaeth newyddion a materion cyfoes BBC Cymru, oedd yn rhan o lawnsio gwefan BBC Cymru'r Byd, ac unwaith eto yn gwbwl gymwys i leisio barn. Roedd Dylan Iorwerth yn siarad fel Golygydd gyfarwyddwr Golwg. Fuaswn i ddim yn dadlau bod unrhyw un ohonyn nhw yn 'arbenigwyr di-duedd', ac ni chyflwynwyd yr un ohonyn nhw yn y modd yna.

Dydw i ddim yn siwr os ydw i'n deall eich pwynt am gysylltiadau Marc Jones â Phlaid Cymru. Yn sicr doedd e ddim yn siarad ar ran Plaid Cymru yn y rhaglen, a byddai wedi bod yn gamarweiniol i'w gyflwyno yn y modd hynny.

Mae'r un yn wir am gyfraniad Aled Eirug. Doedd e'n sicr ddim yn siarad ar ran Llywydd y Cynulliad, a byddai wedi bod yn gamarweiniol i'w gyflwyno yntau yn y modd hynny.

Ry' chi'n cyhuddo'r rhaglen o 'gamliwio ac anghydbwysedd'. Ond camliwio fyddai cyflwyno'r ddau yma yn y modd a awgrymir gennych chi.

Byddai yna beryg, yn ogystal, bod y rhaglen yn enllibio'r unigolion hynny (neu Blaid Cymru neu Lywydd y Cynulliad) petae ni yn awgrymu bod nhw'n mynegi unrhywbeth ond eu safbwyntiau nhw'u hunain, neu'n cael eu defnyddio fel pypedau i leisio barn rhywun arall. Ry ni'n deall bod y cyhuddiad ry chi'n ei wneud nawr eisoes wedi cael ei wneud ar flog Golygydd Barn, Dyfrig Jones, a'i fod e' wedi ymddiheuro am yr haeriad.
Roedd cyfraniadau'r ddau yn codi rhai amheuon am fwriadau Dyddiol cyf, a chithau ac Aled Price yn cael pob cyfle i ymateb i'w sylwadau. Mater o farn yw p'un ai lwyddoch chi i gymryd y cyfle hwnnw neu beidio. Ond fe gofiwch i'r cyfweliad wnaethpwyd â chi i fod yn un manwl a helaeth, ac fe gafodd darnau manwl a helaeth eu cynnwys yn y rhaglen. Felly mae'n anodd gweld sut ry' chi'n dod i'r casgliad bod yna anghydbwysedd yn y rhaglen.

Yn gywir,
Geraint Evans
Golygydd Materion Cyfoes Cymraeg, ITV Cymru.